

## Darlun gorau Duw

*“Ef yw disgleirdeb gogoniant Duw, ac y mae stamp ei sylwedd ef arno. (adn. 3)*

### Beth am ddarllen Hebreaid 1:1–14 ac yna myfyrio

Ddoe, fe nodwyd fod yr eglwys yn Antiochia wedi ei sylfaenu ar y newyddion da am Iesu Grist. Pam nad ydym yn dweud ‘y newyddion da am Dduw’? Oherwydd mai Iesu yw y ffordd at Dduw. Ni ddylem byth beidio â siarad am Dduw yn yr Eglwys Gristnogol, ond yr unig ffordd i mewn i'r Eglwys yw trwy Iesu Grist. Gofynnodd un mewn cyfarfod unwaith: “Pam eich bod yn gwneud cymaint o sylw o'r Arglwydd Iesu ac mor ychydig o Dduw?” “Mae Iesu yn Dduw,” oedd yr ateb, ac wrth i ni sôn llawer amdano ef, yr ydym yn cyfeirio nid yn unig ato ef ond at y Tad, oherwydd Iesu yw'r un sydd yn datguddio'r Tad.

Er bod yr Hen Destament yn datguddio darlun clir o Dduw, y datguddiad mwyaf eglur o Dduw yw Iesu. Clywais un yn dweud unwaith: “Os nad yw Duw fel Iesu, nid wyf yn tybied fy mod am ei adnabod.” Wel, mae Duw fel Iesu, oherwydd mae'r Mab yn datguddio'r Tad – yn ei ddatguddio yn llawn. “Fel Iesu” yw'r disgrifiad gorau mewn unrhyw iaith. Wrth i chi edrych i mewn i wyneb Iesu Grist, yr ydych yn gweld wyneb Duw – y Duw sydd yn achub, yr unig Dduw. Os tybiwch eich bod yn gweld Duw yn unman arall, yn hytrach nag yng ngwyneb Iesu, yr ydych yn gweld rhywbeth sydd heb fod yn Dduw, rhywbeth sydd wedi deillio o ddychymyg dyn. Fel y dywed ein testun heddiw, Iesu yw disgleirdeb gogoniant Duw ac y mae stamp ei sylwedd ef arno.

Un o'r pethau mwyaf trist sydd yn digwydd mewn cylchoedd diwinyddol yw colli Iesu. Mae diwinyddion rhyddfrydol yn dweud llawer am Dduw ond yn esgeuluso dweud llawer am Iesu, ac ar yr adegau hynny pan fyddant yn cyfeirio ato, fe gyfeirir yn bennaf at ei ddyndod. Os byddwch yn colli Iesu, byddwch yn colli Iesu a Duw. Yn ôl un plentyn bach mewn ysgol Sul unwaith: “Iesu yw'r llun gorau o Dduw a gymerwyd erioed.”

### Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Math. 9:36; 14:14–21; 15:32; 21:12–14

### Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Pa agweddau oedd i gymeriad Iesu?
2. Sut fydddech yn cymharu hyn â chymeriad Duw yn Salm 86:15?

### Gweddï

Fy Nuw a'm Tad, yr wyf mor ddiolchgar i ti dy fod wedi datguddio dy hun i ni yn Iesu Grist, dy Fab. Mor wahanol yw ein syniadau ni amdanat ti. Arglwydd, mae'n dychymyg ni yn cael ei chwalu wrth edrych ar Iesu. Diolch am ei weld ef yn eglur. Amen.